Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 58 (Cy. 5)

ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) (Diwygio) (Cymru) 2014

Gwnaed - - - -	*14 Ionawr 2014*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*16 Ionawr 2014*
Yn dod i rym - -	*10 Chwefror 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1, 16(9), 17(1) a (6), 47(1), (2) a (5), 49(5), 50(1), (4) a (6), 51(1) a (2), 51A(2), (3) a (6) o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), a pharagraffau 2, 4, 4A a 10 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1984 p.55; diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p.22) a diwygiwyd adran 47(1) gan adran 8 o'r Ddeddf honno a chan O.S. 1996/1905; diwygiwyd adrannau 50(1) a 51(1) gan O.S. 1996/1905 a mewnosodwyd adran 51A gan yr offeryn hwnnw; mewnosodwyd paragraff 4A o Atodlen 1 gan adran 8 o'r Ddeddf honno.

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1, 16(9), 17(1) a (6), 47(1), (2) a (5), 49(5), 50(1), (4) a (6), 51(1) a (2), 51A(2), (3) a (6) o Ddeddf Adeiladu 1984 a pharagraffau 2, 4, 4A a 10 o Atodlen 1 iddi, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).